

Ceisiadau Ar-lein ar gyfer Llefydd mewn Ysgolion Uwchradd

O'r **11 Medi 2017** gallwch wneud cais ar-lein am le ar gyfer eich plentyn mewn ysgol uwchradd gan ddefnyddio'r...



Yr oll sydd ei angen arnoch yw eich cyfeiriad e-bost er mwyn gwneud cais ar-lein o'ch cyfrifiadur gartref, tabled neu ffôn symudol.

Drwy gyflwyno'ch cerdyn llyfrgell, cewch hefyd ddefnyddio'r cyfleusterau yn Galw Wreccsam ac yn Llyfrgell Wreccsam i gyflwyno'ch cais ar-lein.

Awgrymiadau ar gyfer cwblhau eich cais ar-lein

- Wrth nodi enwau, defnyddiwch briflythrennau ar gyfer llythrennau cyntaf yr enwau, er enghraifft: **Mr Joe Bloggs, Rose Jarvis, Ben Jones**
- Wrth nodi cod post, defnyddiwch briflythrennau, er enghraifft: **LL12 6LD (gan adael gofod ar ôl y 4 digid cyntaf).**
- Wrth nodi cyfeiriad yr ymgeisydd (cyfeiriad y rhiant) dewiswch y cyfeiriad llawn yn hytrach na dim ond cod post.
- Ar ôl i chi gofrestru, bydd angen i chi wneud nodyn o'ch cyfrinair a ddewiswyd gan y byddwch yn derbyn e-bost gyda dolen i'w dilyn i gael mynediad at eich cais ac i'w gwblhau.

- Lluniwch ddrafft o'ch rhesymau pam eich bod yn dewis ysgolion penodol, cyn mynd ar-lein, mae hyn yn arbed amser wrth wneud eich cais ac yn lleihau'r risg o gael eich datgysylltu gan y system.
- Lle y bo'n bosibl, defnyddiwch y dewislenni cwmpo i ddewis yr ysgol bresennol a'r ysgolion a ddewiswyd.
- Os fyddai gan eich plentyn frawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol o'ch dewis chi, ac yn yr ysgol ym mis Medi 2018, cofiwch ychwanegu'r wybodaeth hyn pan ofynnir amdano.
- Cofiwch ddewis sut yr ydych yn dymuno derbyn cadarnhad o'ch cais, er enghraifft drwy e-bost neu lythyr.
- Gallwch ddewis nifer o ysgolion, ond sicrhewch eu bod mewn trefn gyda'r dewis cyntaf yn gyntaf, eich ail ddewis yn ail ac yn y blaen, gallwch ddefnyddio'r saethau i fyny ac i lawr i symud eich dewisiadau.

Os ydych yn ailgyflwyno eich cais, am unrhyw reswm, bydd y system yn gosod eich cais fel 'heb ei gyflwyno' yn awtomatig. Felly bydd yn rhaid i chi fynd i dudalen olaf eich cais, rhoi tic ym mlwch amodau a thelerau a chlicio botwm 'SUBMIT' unwaith eto hyd yn oed os nad ydych wedi newid unrhyw beth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar www.wrecsam.gov.uk a dilynwch y ddolen i dderbyniadau ysgol neu ffoniwch **01978 298991**.

Y DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU YW DYDD 10 TACHWEDD 2017

Sylwer: Ymdrinnir â cheisiadau hwyr ar ôl y rhai sydd wedi dod i law ar amser.

Mae'r prosiect hwn yn cydymffurfio â Strategaeth Werdd y Cyngor.